***CHIEF OFFICER***
***NEIGHBOURHOODS, PLANNING & PUBLIC PROTECTION / PRIF SWYDDOG DROS DRO GWASANAETHAU CYMDOGAETH, CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD***
***Rachel Jowitt***

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# SUT I WNEUD SYLWADAU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

Mae gwrando ar farn pobl yn rhan hanfodol o'r broses ceisiadau cynllunio. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn croesawu sylwadau ar geisiadau cynllunio sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio.

Mae'r nodyn canllaw hwn yn esbonio sut i wneud sylwadau ar gais cynllunio, sut cymerir y sylwadau hynny i ystyriaeth a sut i wneud sylwadau yn bersonol i'r Pwyllgor Cynllunio.

**Sut rhoddir cyhoeddusrwydd i gais cynllunio**

Unwaith y mae cais cynllunio wedi ei gofrestru, mae manylion y cais ar gael i'w gweld ar ein gwefan drwy glicio Gwasanaeth Mynediad Cyhoeddus Cynllunio neu yn swyddfeydd y Cyngor yn Nhŷ Blaen, Y Dafarn Newydd. Rhoddir cyhoeddusrwydd i geisiadau hefyd drwy anfon llythyrau yn uniongyrchol at gymdogion sy'n byw agosaf at gyfeiriad y cais, drwy arddangos hysbysiad ar neu'n agos at y safle, drwy roddi hysbysiad yn y 'Wasg' neu gyfuniad o'r tri.

**Sut ydw i'n gwneud sylwadau ar gais?**

Gallwch wneud sylwadau i gefnogi neu i wrthwynebu unrhyw gais sydd ar agor ar gyfer ymgynghoriad. Gall unrhyw un sydd eisiau gwneud sylwadau wneud hynny drwy:

- Gyflwyno sylwadau arlein drwy glicio ar Gwasanaeth Mynediad Cyhoeddus Cynllunio defnyddio rhif y cais neu ran o'r cyfeiriad; fel arall gallwch wneud sylwadau drwy lythyr neu ebost

- Trwy ysgrifennu at y Pennaeth Cynllunio a Datblygu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cymdogaethau, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd, Tŷ Blaen Torfaen, Panteg Way, Y Dafarn Newydd, Pont-y-pŵl, NP4 0LS. Dyfynnwch rif cyfeirio'r cais cynllunio yn eich gohebiaeth os gwelwch yn dda.

- Trwy ebostio: planning@torfaen.gov.uk  Dyfynnwch rif cyfeirio'r cais cynllunio yn eich gohebiaeth os gwelwch yn dda.

Nodwch os gwelwch yn dda nad oes angen i chi fod wedi derbyn llythyr gennym mi yn eich hysbysu o'r cais er mwyn gallu gwneud sylwadau.

Rhaid i ni dderbyn unrhyw sylwadau o fewn 21 diwrnod o'r hysbysiad. Nodwch y bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Cofiwch ddyfynnu'r rhif cyfeirio.

Hefyd, cynhwyswch eich enw a'ch cyfeiriad gyda'ch sylwadau (rydym yn derbyn cyfeiriadau ebost) er mwyn i'r Cyngor allu cysylltu gyda chi mewn perthynas â'ch sylwadau os oes angen.

Caiff y penderfyniad ar y cais ei gofnodi ar system Mynediad Cyhoeddus y Cyngor.

**A fydd fy sylwadau yn cael eu cyhoeddi?**

Byddant. Caiff eich sylwadau eu cyhoeddi ar ein gwefan ond bydd eich enw, cyfeiriad, llofnod a manylion cyswllt yn cael eu dileu. Byddant hefyd ar gael yn swyddfeydd y Cyngor i'r cyhoedd a'r ymgeisydd eu gweld.

Rydych yn gyfrifol am unrhyw sylwadau a wnewch, felly sicrhewch nad ydynt yn dramgwyddus, ymfflamychol neu'n enllibus. Os ydynt, ni fyddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Pwy sy'n cymryd y penderfyniad ar y cais cynllunio?**

Mae mwyafrif y ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu gan swyddogion dan bwerau dirprwyedig. Fodd bynnag, mae rhai ceisiadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio, er enghraifft oherwydd eu bod yn gymhleth neu lle mae diddordeb arwyddocaol gan y cyhoedd. Y Pwyllgor Cynllunio, sy'n cynnwys Aelodau etholedig y Cyngor o bob ardal yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n cymryd y penderfyniad terfynol ar y ceisiadau hyn, ar ôl adroddiad ac argymhelliad gan y Pennaeth Cynllunio a Datblygu.

**Lle a phryd cynhelir y Pwyllgor Cynllunio?**

Fel rheol, cynhelir y cyfarfod bob 4 wythnos ar ddydd Mawrth, yn Siambr y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl am 4:00pm. Serch hynny, mae'n **hanfodol** eich bod yn gwirio'r dyddiad a'r amser os ydych eisiau mynychu gan y gall y manylion newid. Dim ond lle i nifer cyfyngedig sydd yn yr Oriel Gyhoeddus oherwydd Rheoliadau Tân felly y cyntaf i'r felin.. Bydd pobl sy'n annerch y Pwyllgor yn cael blaenoriaeth. Mae Dolen Sain yn y Siambr ac mae'r holl siaradwyr yn defnyddio meicroffon. Mae modd annerch y Pwyllgor yn y Gymraeg neu'r Saesneg ond bydd angen 2 ddiwrnod gwaith clir er mwyn trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

Cyhoeddir yr agenda ar gyfer y Pwyllgor o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y Pwyllgor Cynllunio.

Mae pob agenda a dyddiadau'r pwyllgor i'w gweld ar wefan y Cyngor drwy glicio ar y ddolen ganlynol: http://moderngov.torfaen.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=136&LLL=0
neu drwy ebostio Rachel.Beale@torfaen.gov.uk. Os na allwch fynd ar y rhyngrwyd, gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaethau Democrataidd ar: 01495 742018 a byddwn yn falch o'ch helpu i gael yr wybodaeth rydych ei hangen.

**A allaf wneud fy sylwadau yn bersonol i'r Pwyllgor Cynllunio?**

Dylech nodi bod mwyafrif helaeth y ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu gan swyddog priodol yn unol â threfniadau dirprwyedig y Cyngor. Nid yw hawliau siarad cyhoeddus yn berthnasol i geisiadau dirprwyedig. Gellir gweld lefel penderfyniad disgwyliedig cais (pwyllgor neu ddirprwyedig) ar wefan Mynediad Cyhoeddus y Cyngor neu drwy gysylltu gyda'r Swyddog Achos.

I annerch y Pwyllgor Cynllunio yn bersonol, bydd angen i chi:

(a) fod wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn flaenorol ar y cais o fewn 21 diwrnod i'r hysbysiad pan roddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais a;

(b) bod wedi cysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd (gweler y manylion cyswllt isod) i ddweud wrthym eich bod yn dymuno siarad. Rhaid i chi roi eich **enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad ebost** a **rhif y cais.** Gan fod cyfarfodydd fel rheol yn cael eu cynnal ar ddydd Mawrth, bydd angen i chi gofrestru i siarad erbyn 4.00pm ar y dydd Gwener cyn dyddiad cynnal y Pwyllgor Cynllunio. Os byddai'n well gennych, gallwch enwebu rhywun arall i siarad ar eich rhan.

NODWCH NA FYDDWCH YN CAEL EICH HYSBYSU O DDYDDIAD CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO FELLY EICH CYFRIFOLDEB CHI YW GWIRIO DYDDIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO AR Y WEFAN.

Mae gwefan mynediad cyhoeddus y Cyngor yn dangos statws ceisiadau. Mae dyddiad y pwyllgor yn ymddangos unwaith y mae'r statws yn newid i *'DISWGYLIR PENDERFYNIAD (GWNAED ARGYMHELLIAD)'.* Drwy gofrestru eich manylion, gellir eich hysbysu o newidiadau yn statws y cais perthnasol.

Os na allwch fynd ar y rhyngrwyd, gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaethau Democrataidd ar: 01495 742018 a byddwn yn falch o'ch helpu i gael yr wybodaeth rydych ei hangen.

Bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i siarad **dim ond** os oes rhywun wedi cofrestru i siarad ar ran ei gais ef neu ei chais hi.

**A allaf siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda?**

Ni fydd gennych hawl i siarad ar geisiadau am 'Dystysgrif Datblygu Cyfreithlon' nac unrhyw eitem sydd er gwybodaeth yn unig.

**Am faint caf siarad a beth allaf ei ddweud?**

Bydd pob siaradwr yn cael siarad am hyd am **bum munud.** Os oes mwy na thri o bobl eisiau siarad ar un cais cynllunio, rhaid penodi siaradwr enwebedig i siarad ar eu rhan. Bydd y person hwn yn cael siarad am hyd at **ddeng munud.** Ffoniwch y Gwasanaethau Democrataidd y diwrnod cyn y Pwyllgor i weld faint o bobl sy'n dymuno siarad. Os bydd mwy na thri o bobl, byddwn yn trefnu bod ystafell ar gael cyn cyfarfod y Pwyllgor er mwyn i'r darpar siaradwyr gyfarfod ac ethol llefarydd.

Byddwch yn cael eich **amseru** yn ystod eich araith, felly dylech fod yn ymwybodol y cewch eich stopio os byddwch yn mynd dros eich amser.

Bydd yr Ymgeisydd yn cael siarad am hyd at bum munud (neu 10 munud os oes llefarydd yn cynrychioli nifer o bobl).

Nodwch bod gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ddisgresiwn i ymestyn neu gwtogi Hawliau Siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor.

**Pa faterion gaf eu codi pan fyddaf yn siarad?**

Dylech ond gyfeirio at y sylwadau a godwyd gennych yn eich gohebiaeth wreiddiol i'r Pwyllgor Cynllunio neu rywbeth a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog Cynllunio. Bwriad yr hawliau siarad hyn yw i ganiatáu i chi esbonio pwysigrwydd eich sylwadau ysgrifenedig blaenorol yn llawnach. Gall Cadeirydd y cyfarfod eich rhwystro rhag siarad os nad ydych yn dilyn y canllaw hwn.

**A allaf ddefnyddio cymhorthion gweledol neu ddosbarthu gwybodaeth yn uniongyrchol i Aelodau'r Pwyllgor?**

Os dymunwch ddefnyddio cymhorthion gweledol i esbonio pwyntiau yr hoffech eu gwneud, gallwch wneud hynny cyn belled a bod y deunydd yn cael ei gyflwyno y diwrnod cyn dyddiad y Pwyllgor Cynllunio. Bydd swyddogion cynllunio yn edrych dros y deunydd. Mae gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ddisgresiwn llwyr o ran caniatáu'r deunydd esboniadol sydd i'w ddefnyddio. Ni fyddwch yn gallu cyflwyno darluniau, ffotograffau na dogfennau eraill i Aelodau'r Pwyllgor.

**A fydd y cyfarfod yn un cyhoeddus?**

Bydd, bydd cyfarfod y Pwyllgor yn agored i'r wasg a'r cyhoedd tra rydych yn siarad a bydd eich enw a'ch cyfeiriad a chrynodeb byr o'ch sylwadau yn cael eu cynnwys yn y cofnodion, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae holl gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu darlledu'n fyw dros y rhyngrwyd.

**Beth sy'n digwydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio?**

- Mae'r Swyddog Cynllunio yn cyflwyno'r cais.
- Bydd y Cadeirydd yna'n gofyn i'r siaradwyr ddod i'r siambr i annerch yr aelodau.
- Bydd y Cadeirydd yn galw ar Gynghorydd/Gynghorwyr y Ward i siarad (os ydynt eisiau gwneud hynny)
- Bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd/asiant ymateb i'r sylwadau.
- Bydd y Swyddogion yn gwneud sylwadau ar unrhyw bwynt a wnaed os oes angen.
- Nid oes cyfle i'r Aelodau holi'r siaradwyr.
- Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn trafod y cais, gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed a chyngor gan swyddogion, a dod i benderfyniad. Gall yr Aelodau benderfynu gohirio'r cais er mwyn cael gwybodaeth bellach neu i wneud ymweliad â'r safle i gael manylion pellach. Bydd y cais wedyn yn cael ei benderfynu yn y cyfarfod nesaf, fel rheol.
- Gallwch ond annerch y Pwyllgor Cynllunio unwaith oni chaiff y cais, ar ôl gohirio, ei newid mewn modd sylweddol neu os cyflwynir gwybodaeth bellach.

**Sut i gysylltu â ni a'n hysbysu eich bod yn dymuno siarad**

Os ydych yn dymuno siarad yn y Pwyllgor Cynllunio, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich hawliau i siarad, cysylltwch â:
Rachel Beale, Uwch Swyddog Cymorth Busnes (Gwasanaethau Democrataidd) ar
Ffôn: 01495 742018, Ebost: Rachel.Beale@torfaen.gov.uk
Neu ysgrifennwch at Rachel Beale yn:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pwl,

Torfaen
NP4 6YB.

**DYFYNNWCH RIF Y CAIS YM MHOB GOHEBIAETH**

***NODWCH Y DYLID CYFEIRIO UNRHYW GWESTIYNAU SY'N BENODOL AM GAIS CYNLLUNIO AT Y SWYDDOG ACHOS***

**Cyfeiriad y wefan: www.torfaen.gov.uk**
**Mynediad Cyhoeddus: https://planningonline.torfaen.gov.uk/online-applications/**